CYFLWYNIAD

1 Mae'r cylchlythyr hwn:

- yn cyhoeddi cyhoeddiad yr adroddiad wedi'i ariannu gan CCAUC, *Adolygiad Strategol o Ddarpariaeth Ieithoedd Modern mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Gyllidir gan CCAUC*; ac
- yn ceisio safbwyntiau am yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a chamau gweithredu yn y dyfodol.

2 Yn bennaf, rydym yn dymuno casglu safbwyntiau gan benaethiaid sefydliadau ac uwch reolwyr o'r sector addysg uwch (AU), er mwyn sicrhau ein bod yn deall eu gweledigaeth ar gyfer ffurf y ddarpariaeth ieithoedd tramor modern (ITM) i'r dyfodol mewn AU yng Nghymru, a sut y gellir ei hwyluso o ran argymhellion adroddiad yr adolygiad. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion gan eraill sy'n cael eu heffeithio gan, neu sydd â diddordeb mewn datblygiadau yn y dyfodol yn y maes hwn, neu a hoffai chwarae rôl allweddol wrth helpu cymryd yr argymhellion yn eu blaen.

YR ADRODDIAD

3 Rhoddwyd cylch gorchwyl i CCAUC gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003 i gynnal adolygiad strategol o ddarpariaeth ieithoedd modern yn y sector AU yng Nghymru, yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern y Cynulliad Cenedlaethol, *Ieithoedd sy'n Cyfrif*. Roedd yr adolygiad i'w gynnal mewn cydweithrediad ag Addysg Uwch Cymru (AUC), y mae ei aelodau yn benaethiaid y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a CILT Cymru, y ganolfan genedlaethol er arbenigedd mewn addysgu ac ymchwil iaith. Cafodd Ymgynghorwyr Robert Huggins Associates eu cyflogi i ymgymryd â'r adolygiad, a ddechreuwyd ar ddechrau 2004.

4 Nodau bras yr adolygiad oedd:

i) archwilio cyflwr presennol y ddarpariaeth ieithoedd modern yn y sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys recriwtio myfyrwyr a materion cefnogaeth nawdd, gan gynnwys darpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) ar gyfer ieithoedd modern mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau);

ii) ystyried tueddiadau amcanol yn y gorffennol ac yn y dyfodol o ran y cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth o'r fath dros gyfnod o flynyddoedd ac o gymharu â darpariaeth debyg ledled y DU a thu hwnt;

iii) nodi opsiynau ar gyfer cynnal a datblygu darpariaeth ieithoedd modern mewn SAUau yng Nghymru, gan ystyried cylch gorchwyl Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ganolbwyntio ar y cyfnod hyd at 2010.

5 Cynhaliwyd yr adolygiad mewn dwy ran: astudiaeth feintiol o gyflwr cyfredol y ddarpariaeth ITM yn y sector AU, gan alluogi'r ymgynghorwyr i fapio tueddiadau yn y ddarpariaeth yng Nghymru; ac astudiaeth ansoddol. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron i SAUau a chyfweliadau wyneb yn wyneb.

6 Dewisodd CCAUC y digwyddiad a lansiodd y bartneriaeth rhwng CILT Cymru a chanolfan bwnc Astudiaethau Ieithoedd, Ieithyddiaeth ac Ardal (AIIA/LLAS) yr Academi Addysg Uwch ym mis Mawrth 2005 i ledaenu nifer o ganfyddiadau meintiol o'r adolygiad. Defnyddiwyd y digwyddiad hefyd i drafod yr argymhellion a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad.

7 Mae'n bleser gennym gyhoeddi cyhoeddiad yr adroddiad. Mae'r Crynodeb Gweithredol, sydd wedi'i gynnwys gyda chopïau caled o'r cylchlythyr hwn, yn cynnig trosolwg o'r prif ganfyddiadau. Mae hefyd yn rhestru argymhellion yr adroddiad, sydd wedi'u hanelu at CCAUC, Llywodraeth Cynulliad Cymru, AUC, sefydliadau AU ac adrannau ITM. Gellir gweld yr adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol ar dudalennau Cylchlythyrau 2005 ar wefan CCAUC, www.hefcw.ac.uk. Gellir anfon copïau PDF atoch ar ffurf e-bost pe byddai hynny'n well gennych.

PRIF GANFYDDIADAU

8 Mae'r prif ganfyddiadau ansoddol wedi'u cynnwys yn y crynodeb gweithredol atodedig. Canfu'r adolygiad hefyd:

- Bod y dirywiad mewn myfyrwyr ITM cyfwerth ag amser llawn mewn SAUau yng Nghymru rhwng 1998/99 a 2001/02 yn llai amlwg na ledled y DU ar gyfer yr un cyfnod:
- Bod cynnydd graddol wedi digwydd yng nghyfran y myfyrwyr ITM sy'n astudio'n rhan amser yn y blynyddoedd diwethaf;
- Bod cynnydd yn y nifer cyffredinol sy'n dewis dilyn modiwlau ITM yng Nghymru yn gwrthgyferbynnu â dirywiad sylweddol yn Lloegr. Gellir priodoli hyn i dwf cyrsiau cydanrhydedd newydd a darpariaeth anarbenigol ar draws SAUau Cymru;
- Bod ITM yn parhau'n faes astudio deniadol i'r myfyrwyr sy'n cyflawni orau mewn arholiadau Safon Uwch;
- Bod y niferoedd ar gyrsiau ITM TAR wedi cynyddu, er bod y mwyafrif helaeth o hyd yn fenywod;
- Er bod niferoedd ITM TGAU wedi gostwng, mae'r nifer sy'n dewis dilyn Safon Uwch wedi cynyddu. Mae cofrestriadau cyfrwng Cymraeg o'r ddau sector wedi cynyddu;
- Er bod graddedigion ITM yn dechrau mewn ystod eang o yrfaoedd, mae cyflogwyr yn ystyried bod meddu ar sgiliau iaith yn flaenoriaeth isel; ac
- Ar lefel ymchwil, mae yna ddarlun cymysg, gydag adrannau ITM yn gwella'u graddau RAE, er bod nifer y myfyrwyr ôl-raddedig wedi gostwng yn gyson yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr Adolygiad.

Felly, mae'r adroddiad yn nodi, mewn llawer o ffyrdd, bod y problemau a wynebir yng Nghymru yn llai dwys na mannau eraill yn y DU, er bod y cyfraddau llwyddiant wrth recriwtio i gyrsiau ITM yn amrywio rhwng sefydliadau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi meysydd pryder ac yn cynnig argymhellion i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

YR YMGYNGHORIAD

9 Gwahoddir ymatebion ysgrifenedig ynghylch sut y dylai CCAUC, Llywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau AU ac adrannau ITM, mewn partneriaeth, yn ôl y gofyn, â chyflogwyr graddedigion, ymateb i'r argymhellion. Byddwn hefyd yn cynnal seminar ymgynghori ar 3 Hydref 2005 wedi'i hanelu'n bennaf at uwch reolwyr mewn SAUau a'r rheiny â gwybodaeth am y safbwynt sefydliadol ynghylch datblygiadau pellach yn y dyfodol yn y maes hwn.

10 Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn llywio cynllun gweithredu, i'w lunio gan CCAUC mewn partneriaeth â CILT Cymru ac AUC yn yr hydref. Sefydlwyd cronfa ddatblygu ITM fach gan CCAUC i helpu sefydliadau AU, drwy gydweithrediad â phartneriaid, i gyflawni rhai o ganlyniadau'r cynllun gweithredu hwn, yn enwedig ym meysydd marchnata, ehangu mynediad a gweithio gyda chyflogwyr. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi ar ôl llunio'r cynllun gweithredu.

11 Bydd angen i CCAUC ystyried y cyd-destun newidiol y bydd y cynllun gweithredu yn cael ei lunio oddi fewn iddo. Drwy lythyr cylch gorchwyl 2005-06 CCAUC, amlinellodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ei disgwyliad y dylai CCAUC gadw golwg ar y gwaith sy'n mynd rhagddo yn Lloegr i nodi a diogelu pynciau strategol pwysig. Roedd hi hefyd yn awyddus na ddylai myfyrwyr yng Nghymru golli'r cyfle i astudio pynciau sydd â phwysigrwydd ehangach mewn cyd-destun Cymreig. Yn unol â hynny, bydd CCAUC yn cyflwyno cyngor cychwynnol am y pynciau hynny sydd efallai'n disgyn i'r categori hwn, ac a allai fod yn anodd i'w cynnal, ac opsiynau ynghylch sut i ymateb i hyn erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf.

12 Mae'n bosibl y bydd cyllid ychwanegol ar gael i'r sector AU drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu CCAUC (Cylchlythyr CCAUC W04/48HE). Gallai cefnogaeth drwy'r gronfa hon: hwyluso ad-drefnu darpariaeth rhwng sefydliadau lle gellid dangos bod hyn o fudd sylweddol i fyfyrwyr, y gwaith o gynnal neu wella'r sail ymchwil yng Nghymru, neu economi neu gymdeithas Cymru; neu, cefnogi clystyrau a rhwydweithiau rhagoriaeth, naill ai mewn addysgu, ymchwil neu weithgareddau trydedd genhadaeth, lle'r oedd y rhain yn sylweddol, yn gynaliadwy, yn meddu ar strwythurau rheoli unedig a'r gallu i gynnig

mwy o fanteision na sefydliadau sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain. Gellir gweld mwy o wybodaeth yn www.hefcw.ac.uk ar y tudalennau Ailgyflunio a Chydweithredu.

13 Gwahoddir ymatebwyr i gynnig adborth ar unrhyw argymhellion neu'r holl argymhellion yn yr adroddiad. Ceir rhestr lawn yn y crynodeb gweithredol a'r adroddiad llawn. Yn arbennig, rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr hwn.

YR YMGYNGHORIAD

14 Yn benodol, hoffai'r Cyngor ymgynghori ynghylch tri chategori o argymhellion:

ADRAN A: argymhellion ar gyfer gweithredu gan CCAUC/Llywodraeth Cynulliad Cymru;
ADRAN B: argymhellion ar gyfer gweithredu gan sefydliadau addysg uwch; ac
ADRAN C: argymhellion ar gyfer gweithredu gan Adrannau Ieithoedd Tramor Modern Modern.

ADRAN A: Argymhellion ar gyfer gweithredu gan CCAUC/Llywodraeth Cynulliad Cymru

A.i. Materion strategol a chyllido

15 Mae'r adroddiad yn argymell bod rhaglen genedlaethol o weithredu ar y cyd yn angenrheidiol i ganlyn unrhyw strategaethau i'r dyfodol ar gyfer darpariaeth ITM ar lefel AU. Byddai angen cydlynu amcanion cyffredinol, prosiectau ar y cyd a chydweithredu ar lefel genedlaethol mewn cyd-destun ehangach, blaengar ac Ewropeaidd, tra byddai angen i sefydliadau fynd i'r afael ag anghenion, statws a chynllunio i'r dyfodol ar gyfer ysgolion, adrannau ac ieithoedd unigol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r adroddiad yn argymell datblygu canllawiau cenedlaethol i sicrhau ariannu cyrsiau anarbenigol yn glir ar draws sefydliadau i gynnig strwythur cydlynus i sefydliadau ac adrannau weithio ynddo.

Argymhelliad 1
Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol a CCAUC weithio gyda'r sefydliadau a chyrff eraill i ddatblygu strategaeth ar gyfer darpariaeth ITM yn y sector addysg uwch sy'n gydlynol ar draws y sefydliadau ac yn cydnabod amrywiaeth y ddarpariaeth a'r dulliau cyflwyno.

Argymhelliad 37
Mae angen datblygu canllawiau i hybu system eglur a chydlynol o gyllido cyrsiau ITM anarbenigol ar draws y sefydliadau. Gallai CCAUC ac AUC (HEW) arwain yn y cyswllt hwn.

Argymhelliad 36
Dylai CCAUC gynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth gyllido ar gyfer ITM wrth ystyried cylch gwaith y Cynulliad mewn perthynas â phynciau sydd o bwys ehangach mewn cyd-destun Cymreig, gan gynnwys cyllido darpariaeth arbenigol ac anarbenigol.

Cw1 ***Yn agenda cyffredinol pynciau o bwysigrwydd ehangach mewn cyd-destun Cymreig, a oes angen i Gymru ddatblygu strategaeth hollgynhwysfawr yn benodol ar gyfer ITM mewn AU?***

Cw2 ***O ystyried safbwynt CCAUC bod yn well cael atebion strwythurol nag addasiadau arunig i'r model cyllido o ran pynciau o bwysigrwydd ehangach, pa gyngor gallwch chi ei gynnig am ymagweddau strwythurol posibl i gryfhau ITM?***

A.ii. Ehangu mynediad

16 Dengys yr adroddiad y daw cyfran is o fyfyrwyr ITM Cymru mewn SAUau yn y DU o ddosbarthiadau cymdeithasol-economaidd is nag ar gyfer pynciau eraill. Canfu'r adroddiad, er gwaethaf nifer o enghreifftiau o arfer da yng Nghymru o ran ehangu mynediad i ddysgu ieithoedd, mae adrannau ITM wedi bod yn araf ar adegau i gydnabod y potensial i gynyddu galw drwy weithgareddau ehangu mynediad. Gallai'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach a ariennir gan CCAUC gynnig cyfrwng ar gyfer datblygiadau pellach yn y maes hwn.

Argymhelliad 16
Dylai CCAUC weithio gyda'r Ganolfan Bwnc HEA LLAS, UCML a CILT Cymru i sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru yn gallu cyrchu arfer da ac astudiaethau achos llwyddiannus mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad drwy ddysgu ieithoedd. Hefyd gellid rhoi canllawiau i SAUau sy'n manylu ar y gwersi a ddysgwyd mewn cynlluniau a phrosiectau blaenorol wrth fynd i'r afael â rhai o'r sialensiau a amlinellwyd uchod.

Cw3 ***Pa fesurau y gellid eu cymryd i ehangu mynediad i gyrsiau ITM ar lefel AU, gan gynnwys adeiladu ar enghreifftiau presennol o arfer da, cysylltiadau ag AB ac integreiddio gwell gyda phartneriaethau* Ymgyrraedd yn Ehangach*?***

A.iii. Dysgu o bell

17 Mae'r adroddiad yn nodi bod dysgu o bell yn cynnig cyfle potensial i adrannau ITM wella'r ddarpariaeth gyfredol, i gynnig cyrsiau newydd ac i gydweithio gydag adrannau ITM eraill, naill ai fel rhan o gynghrair strategol o ran cynnig ITM neu drwy rannu myfyrwyr a chyflwyno cyrsiau ar y cyd. Nid yw'r holl adrannau ITM wedi ymwneud â darpariaeth drwy ddysgu o bell, er y gallai hyn gynnig sgôp iddynt gydweithredu. Gan fod y rhan fwyaf o ddatblygiad dysgu o bell ar gyfer ieithoedd wedi dod o'r Brifysgol Agored, mae argymhelliad 24 yn nodi:

Argymhelliad 24
Dylai CCAUC ystyried rôl bosibl y Brifysgol Agored wrth sefydlu partneriaethau ar y cyd a datblygu strategaeth ddysgu o bell genedlaethol ar gyfer ITM yng Nghymru**.**

Cw4 ***Sut gallai CCAUC gynorthwyo SAUau i gymhwyso technolegau newydd orau a chael mynediad i farchnadoedd newydd drwy gydweithredu, gan gynnwys gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ym maes dysgu o bell?***

ADRAN B: Argymhellion ar gyfer gweithredu gan sefydliadau addysg uwch

B.i. Camau gweithredu ar y cyd

18 Gellir cymryd rhai argymhellion yn yr adroddiad yn eu blaen os yw SAUau eu hunain yn arwain yn glir. Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai SAUau ddatblygu dulliau newydd o bartneriaeth drwy annog diwylliant ehangach o gydweithredu, a allai gysylltu â darpariaeth ychwanegol i fodloni galw arbenigol a phenodol. Yn wir, partneriaeth fydd canolbwynt unrhyw strategaethau i gynnal a chynyddu darpariaeth ITM. Fel rhan o'r weledigaeth ar gyfer cynyddu cydweithredu rhwng SAUau, efallai yr hoffai penaethiaid SAUau ystyried dichonolrwydd ariannu gwaith cydweithredol sylweddol mewn ITM mewn AU yng Nghymru drwy gynigion i Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu CCAUC.

Argymhelliad 7
Dylai sefydliadau ystyried y potensial ar gyfer cyfres o gynlluniau a chyrsiau ar y cyd sy'n ehangu'r ystod o ddarpariaeth ITM arbenigol ac anarbenigol yn SAUau Cymru. Un mecanwaith ar gyfer hybu cydweithio a'i gefnogi'n ffurfiol yw Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC.

Cw5 ***Sut gall gweithredu ar y cyd gael ei gymryd yn ei flaen drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu CCAUC?***

19 Mae'r adroddiad yn sôn am gynnydd mewn aelodau ´cyfnod penodol´ neu 'achlysurol' o staff yn cyflwyno ITM, a all lenwi bylchau yn y ddarpariaeth.

Argymhelliad 39
Mae angen mynd i'r afael â'r duedd i ddefnyddio llafur 'ysbeidiol' mewn adrannau ITM. Dylai sefydliadau edrych ar fesurau rhannu staff posibl ochr yn ochr â datblygu darpariaeth ar y cyd.

Cw6 ***Sut gallai SAUau gydweithio i ddatblygu darpariaeth/staffio ar y cyd, efallai drwy strategaethau adrannol, sefydliadol neu gydweithredol newydd neu gyfredol?***

20 Mae'r adroddiad yn awgrymu cyfleoedd drwy ddatblygu ymhellach rwydweithiau rhwng sefydliadau, AB ac ysgolion i hyrwyddo ITM.

Argymhelliad 18
Dylai SAUau ystyried partneriaethau ar y cyd gyda chyrff hyfforddi a sefydliadau addysg bellach i ddatblygu cyrsiau mynediad ITM.

Cw7 ***Sut gallai cysylltiadau â SAB a sefydliadau hyfforddiant gael eu gwneud gan SAUau?***

21 Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai adrannau ITM sicrhau bod cyflogwyr yn cydnabod gwerth sgiliau iaith a'r rhinweddau y mae graddedigion iaith yn eu cynnig i'r gweithle. Gallai datblygiadau cydweithredol rhwng cyflogwyr a SAUau fod yn arbennig o arwyddocaol o ran annog dysgu ieithoedd ar lefel AU yng Nghymru.

Argymhelliad 35
Dylai cyflawniadau addysgol israddedigion a graddedigion ITM gael eu hyrwyddo'n well ymhlith cyflogwyr. Gellir gwneud hyn fel rhan o strategaeth hyrwyddo a marchnata ehangach ar fanteision ITM a gellid ymgymryd ag ef gan bartneriaeth yn cynnwys sefydliadau, cyflogwyr ac asiantaethau'r llywodraeth.

Cw8 ***Sut gallai sefydliadau gymryd yr argymhelliad hwn yn ei flaen gyda sefydliadau gyrfaoedd, cyflogwyr a hyfforddiant?***

B.ii. Y flwyddyn dramor

22 Mae'r adroddiad yn awgrymu bod lleiafrif o adrannau wedi bod dan bwysau i roi'r gorau i'r flwyddyn dramor orfodol neu i gwtogi arni, yn aml yn sgil materion cost neu weinyddu yn y sefydliad neu yn sgil cyfyngiadau rhai myfyrwyr rhan amser o ran arian neu amser. Fodd bynnag, mae cyflogwyr ac academyddion yn cydnabod y sgiliau proffesiynol, addysgol a bywyd ychwanegol y gall blwyddyn dramor eu cynnig i fyfyrwyr a sut gall cyfnewidfeydd hybu proffil y sefydliad yn rhyngwladol.

Argymhelliad 13
Dylai'r flwyddyn mewn gwlad dramor barhau'n elfen allweddol o gyrsiau ITM a dylai gael ei marchnata a'i chydnabod felly gan y sefydliadau.

Argymhelliad 17
Dylai sefydliadau ystyried darparu bwrsarïau iaith i fyfyrwyr o deuluoedd llai cefnog i helpu gyda chostau ychwanegol y flwyddyn dramor a'r cwrs pedair blynedd. Gallai hyn fod yn arf marchnata ychwanegol ar gyfer cyrsiau ITM ac fel rhan o unrhyw gynlluniau ehangu mynediad.

Cw9 ***Os dylai'r flwyddyn dramor barhau'n elfen allweddol o gyrsiau ITM mewn AU, sut gellid ei gwneud yn fwy deniadol i bob myfyriwr er mwyn cynyddu cyfranogiad cyffredinol, yn ogystal â helpu ehangu mynediad i gyrsiau ITM?***

B.iii. Strategaethau rhyngwladol

23 Mae'r adroddiad yn awgrymu bod ymrwymo adrannau ITM i strategaethau corfforaethol a datblygiad rhyngwladol sefydliadau yn declyn hyrwyddo da i ddenu myfyrwyr. At hynny, gall adrannau ITM gynnig arbenigedd a chysylltiadau ar gyfer prosiectau cydweithredol Ewropeaidd posibl, cynnig canolbwynt ar gyfer cysylltiadau â busnes tramor a gwella enw da sefydliadau yn rhyngwladol.

Argymhelliad 32
Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i rôl bosibl adrannau ITM mewn unrhyw strategaethau corfforaethol a strategaethau datblygu rhyngwladol sydd gan eu sefydliadau, yn enwedig y rheiny sy'n hyrwyddo'r sefydliad a'i gyrsiau dramor.

Cw10 ***Sut gallai adrannau ITM gyfrannu at ddatblygiad strategaethau datblygu sefydliadol, corfforaethol a rhyngwladol?***

ADRAN C: Argymhellion ar gyfer gweithredu gan Adrannau Ieithoedd Tramor Modern

C.i. Gweithredu unigol a chydweithredol

24 Gellir cymryd nifer o argymhellion yn eu blaen gan yr adrannau ITM eu hunain, naill ai'n unigol neu drwy gydweithredu ag SAUau eraill neu sefydliadau perthnasol, gan adeiladu ar fentrau cyfredol. Dylid annog arloesi mewn ymagweddau marchnata ymhellach, ac mae angen rhoi strategaethau ar waith i sicrhau y gall adrannau ITM a marchnata ymdopi â newidiadau mewn galw a'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr. Gallai cydweithredu rhwng adrannau ITM ac adrannau dysgu gydol oes wneud y gorau posibl o gyfleoedd i gyflwyno cyrsiau iaith drwy ddarparwyr dysgu lleol.

Argymhelliad 2
Dylai adrannau ITM, gyda chefnogaeth eu hadrannau marchnata a'u sefydliadau, ganolbwyntio ar gynnal a chynyddu galw yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Argymhelliad 15
Mae angen i adrannau ITM sefydlu partneriaethau gwell â sefydliadau AB a sefydliadau addysg oedolion, yn ogystal ag adrannau dysgu gydol oes eu sefydliadau eu hunain.

Cw11 ***Sut gellir meithrin cysylltiadau ymhellach rhwng adrannau ITM SAUau a'u hadrannau marchnata eu hunain a rhwng adrannau ITM a SAB, sefydliadau addysg oedolion ac adrannau dysgu gydol oes?***

C.ii. Arloesi

25 Mae'r adroddiad yn cymeradwyo adrannau ITM am ymagweddau arloesol at ddarparu a chyflwyno ITM, ac mae'n cynnig enghreifftiau o arloesiadau gan SAUau ar ffurf astudiaethau achos. Fodd

bynnag, mae hefyd yn nodi y bu'r ymagweddau hyn yn adweithiol yn bennaf i gynnal galw a gwella dewis, ac mae'n awgrymu y gellid cymryd arloesiadau yn eu blaen yn strategol ac yn gydweithredol.

Argymhelliad 11
Dylai adrannau ITM, fel rhan o'u strategaethau tymor canolig i dymor hir ar gyfer darpariaeth, ymgymryd â datblygu darpariaeth *ab initio* ynghyd â thargedu ymhellach ddarpariaeth anarbenigol, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr tramor.

Cw12 ***Sut gall SAUau adeiladu ar, a lledaenu, arferion arloesol yn eu sefydliad eu hunain neu mewn SAUau eraill?***

C.iii. Ymchwil

26 Mae'r adroddiad yn amlygu pryderon ynglŷn â gostyngiad yn niferoedd myfyrwyr ymchwil ITM yng Nghymru.

Argymhelliad 20
Dylai adrannau ITM ymchwilio ymhellach i gyfleoedd ar gyfer ymchwil gydweithiol ar draws SAUau Cymru. Gall y broses hon hefyd edrych ar ffynonellau cyllid posibl, gan gynnwys: Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRB)[AHRC], sefydliadau preifat, rhaglenni cyllido'r UE ac ymddiriedolaethau elusennol.

Argymhelliad 21
Dylai adrannau ITM sefydledig arwain y gwaith o gynyddu gallu a chreu rhwydweithiau ymchwil newydd, gan gynnwys sefydliadau nad ydynt yn gwneud dim neu fawr ddim ymchwil ITM.

27 Bydd niferoedd ymchwil yn un o'r materion i'w hystyried fel rhan o'r pynciau o bwysigrwydd ehangach mewn agenda cyd-destun Cymreig.

Cw13 ***Sut gall SAUau yng Nghymru adeiladu ar niferoedd ymchwil cyfredol mewn ITM drwy greu rhwydweithiau ymchwil newydd neu gydweithredu i fanteisio'n fwy effeithiol ar ffynonellau cyllid?***

C.iv. Cysylltiadau â chyflogwyr

28 Canfu'r adroddiad y byddai angen i hyrwyddo datblygiad iaith gynnwys rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys yn y sector busnes, er mwyn helpu sefydlu dealltwriaeth well o'r sgiliau sydd gan raddedigion iaith. Canfuwyd ychydig o enghreifftiau o strategaethau i sefydlu cysylltiadau â chyflogwyr. Dyma un o'r meysydd mwyaf arwyddocaol lle dylid annog rhyngweithio pellach, a fyddai'n helpu cyflogwyr i weithio'n rhyngwladol ac i fyfyrwyr gydnabod gwerth sgiliau iaith ar gyfer y gweithle.

Argymhelliad 28
Dylai adrannau ITM gyfuno arbenigedd a chysylltiadau i gefnogi busnesau a diwydiant lleol pan fo angen.

Argymhelliad 29
Dylai fod rhagor o gysylltiadau hefyd rhwng adrannau ITM a chyfryngwyr busnes, megis Llygad Busnes/Business Eye, oherwydd y byddai hyn yn fuddiol i'r adrannau ac i'r sefydliadau eu hunain.

Cw14 ***Sut gellid annog cysylltiadau rhwng SAUau a grwpiau cyflogwyr neu fusnesau?***

C.v. Cyfrwng Cymraeg

29 Mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai darparu addysgu ITM drwy gyfrwng y Gymraeg fod ar flaen y gad o ran strategaeth ddiwygiedig i annog dysgu ITM o lefel ysgol i fyny. Mae'r adroddiad yn awgrymu

y dylai darparwyr cyfrwng Cymraeg presennol gynyddu cydweithredu a datblygu deunyddiau addysgu ar y cyd a chyrsiau achrededig.

Argymhelliad 4
Anogir darparu cyrsiau arbenigol a rhagor o gyrsiau ITM cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn eto fod yn rhan o strategaethau adrannol, sefydliadol a chydweithiol. Dylai'r Grŵp Llywio ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch ystyried sut y gellir dwyn ynghyd yr arbenigedd a'r sgiliau sy'n bodoli ym maes ITM cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi darpariaeth o'r fath drwy rwydweithiau sy'n gwasanaethu staff a myfyrwyr.

Cw15 ***Yn ogystal â'r gwaith a argymhellir ar gyfer y Grŵp Llywio ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a'r Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, sut gellid dod â'r camau gweithredu hyn i'r brif ffrwd mewn strategaeth gyffredinol sefydliad ar gyfer ITM a sut gallai cydweithredu chwarae rhan?***

SEMINAR YMGYNGHORI

30 Bydd seminar ymgynghori yn cael ei chynnal i drafod argymhellion yr adroddiad ac i fesur ymhellach safbwyntiau SAUau ac eraill a fyddai'n allweddol o ran cymryd cynllun gweithredu yn ei flaen ar ddatblygiadau pellach mewn ITM mewn AU. Bydd yn cael ei chynnal **ddydd Llun, 3 Hydref 2005**. Rydym yn croesawu cynrychiolaeth gan unrhyw un sydd â diddordeb yn yr agenda hwn. Yn benodol, hoffem weld cynrychiolaeth gan uwch reolwyr ac uwch gynrychiolwyr o ITM ac adrannau cysylltiedig eraill fel y gall CCAUC fod yn ymwybodol o'r safbwynt sefydliadol ar rai o'r argymhellion. Bydd gwahoddiadau'n cael eu dosbarthu i SAUau a sefydliadau perthnasol eraill maes o law.

31 Rydym yn gobeithio y bydd y sesiwn foreol yn galluogi i CCAUC adrodd ar yr ymgynghoriad a'i ddatblygiadau ei hun, ac yn galluogi i CILT Cymru ac AUC ddangos sut gallent hwyluso cydweithredu rhwng sefydliadau ac adrannau. Bydd sesiwn y prynhawn ar gael i'r sector rwydweithio ac i drafod posibiliadau ar gyfer cydweithredu, i fwydo i'r cynllun gweithredu.

32 Yn y cyfamser, efallai yr hoffai sefydliadau ddefnyddio'r cyfnod ymgynghori i ystyried sut gallai'r gronfa ddatblygu ITM hwyluso datblygiadau cydweithredol o bosibl i hyrwyddo a marchnata ITM, i ehangu mynediad i gyrsiau ITM ac i ymgysylltu â chyflogwyr. Hoffem hefyd annog ystyriaeth bellach o'r potensial ar gyfer gwneud cais i gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu CCAUC er mwyn cymryd camau gweithredu eraill sy'n codi o'r adroddiad yn eu blaen.

SYLWADAU CYFFREDINOL

33 Byddai'r Cyngor yn croesawu unrhyw sylwadau eraill yr hoffai ymatebwyr eu cynnig am yr adroddiad a'i argymhellion.

YMATEBION

34 Dylid anfon ymatebion at Emma Raczka, Rheolwr Dysgu ac Addysgu, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DZ, neu drwy e-bost: emma.raczka@hefcw.ac.uk erbyn **dydd Gwener, 14 Hydref 2005**.